Bethania

Pentref bach tua dwy filltir i'r dwyrain o Jerwsalem ar ochr Mynydd yr Olewydd yw Bethania; dyma'r pentref olaf cyn cyrraedd Jerwsalem wrth i chi deithio yno ar y ffordd o Jericho. 'Roedd Iesu yn ymweld â'r pentref yn aml iawn. 'Roedd Mair, Martha a Lasarus, ffrindiau'r Iesu yn byw yma. Wedi i Lasarus farw, cafodd ei gladdu, a daeth Iesu i'r pentref a'i atgyfodi o'r bedd. Dyma le'r oedd Simon y Gwahanglwyf yn byw. Mae'r Testament Newydd yn dweud fod Iesu wedi cael ei eneinio yno. Yr enw modern ar Fethania ydy el-Azariyeh. Mae'r enw yn golygu Lle Lasarus. Mae coed ffigys, almon ac olewydd yn tyfu yn yr ardal.

Gwybodaeth o *Beibl.net* yw hwn am bentref Bethania – lle cyfarwydd iawn i'r Iesu, lle y gallai ymlacio gyda'i gyfeillion a dal pen rheswm am bobl ac am ddigwyddiadau; lle iraidd mae'n amlwg, lle i ddangos yn eglur mewn gair a gweithred, ei berthynas gyda'i Dad a grym ei Dad ynddo ef ac yn yr Ysbryd Glân. Ond beth olyga Bethania i grwp o aelodau o Eglwys Minny Street ac i ambell i gyfaill fel fi? Wel - rhywbeth tebyg iawn, rhaid i mi gyfaddef. Bethania yw'r enw a roir i'n cyfarfodydd bob bythefnos yng nghartrefi ein gilydd. Cyfle i ddod at ein gilydd fel cyfeillion, i ymlacio yng nghwmni ein gilydd, i ddal pen rheswm ac i gael ein harwain a'n hannog i ddeall grym a daioni Duw a gwaith yr Ysbryd Glan drwy astudio rhannau o'r Beibl.

Yn ddiweddar yr ydym wedi bod yn canolbwyntio ar rai o'r Salmau a bydd y Gweinidog, Owain Llyr, yn paratoi, yn ei ffordd arbennig o gydwybodol a thrwyadl, gefndir i'r Salm; bydd yn ein harwain drwy'r Salm, yn tynnu ein sylw at strwythur, at eirfa, at hanes, at gyswllt, at neges ac at unrhyw agwedd arall sy'n briodol. Ond nid dyna'i diwedd hi! Wedyn bydd yn gosod cwestiwn neu ddyfyniad pigog neu fachog i'n hannog i feddwl yn ddyfnach, i ofyn cwestiynau, i feiddio lleisio barn. Ond nid anodd gwneud hyn oherwydd, fel y dywedais, 'rydym ymhlith ffrindiau ac mae bob un ohonom yn gyd-bererin ar y daith ysbrydol yn ceisio dod i wybod mwy am Dduw ac i ddod i adnabod yr Iesu'n well a'i garu'n fwy.

Roedd e-fwletin *Cristnogaeth 21* ychydig wythnosau'n ôl yn gresynu ei bod yn ymddangos ein bod ni'r Cymry yn colli'r awydd a'r sgiliau i drafod yr Ysgrythur ac i ddiwinydda. Wel 'rydym yn gwrthbrofi hyn i ryw raddau o fewn grwp Bethania oherwydd weithiau yr ydym yn canfod ein hunain yn cael ein harwain at rai o gwestiynau mwyaf dyrys ein ffydd. Cawsom drafodaeth ddiddorol o gwmpas ein daliadau ar Bechod Gwreiddiol, er enghraifft, a diddorol oedd gwrando ar safbwyntiau ein gilydd a gweld fod dealltwriaethau gwahanol hyd yn oed o fewn ein grwp ni. Da yw cael y cyfle i wrando ar ddaliadau ein gilydd a da fyddai hyd yn oed mwy o gyfleoedd i ganolbwyntio ar gwestiynau mawr ein ffydd a chlywed am ddaliadau ein brodyr a'n chwiorydd yng Nghrist - boed yn un o blith yr Annibynwyr, yr Anglicaniaid, y Bedyddwyr, yr Eglwys Gatholig Rufeinig, y Presbyteriaid …..

Yn union fel 'roedd Mair, Martha a Lasarus yn falch o weld yr Iesu'n dod atynt ac yn amlwg yn cael pleser a bendith arbennig o'i bresenoldeb, felly hefyd profiad Bethania 'ni' i mi; cyfle o fewn wythnos i ymdawelu gyda chyfeillion, i wrando ar Air Duw ac i deimlo presenoldeb Crist yn ein plith. Mawr ddiolch i Owain ac i bawb o aelodau'r grwp am y cyfle i gyd-gerdded rhan o'r daith.

Rhian Linecar